# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro – Interim Managing Director

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR PENODIADAU** | **APPOINTMENTS COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN, 1 GORFFENNAF 2013 am 2.00 o'r gloch** | **MONDAY, 1 JULY, 2013 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752516 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol/Independent**

Victor Hughes, H. Eifion Jones, Peter S. Rogers, Ieuan Williams

**Llafur / Labour**

J A Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Vaughan Hughes, Carwyn Jones a R G Parry OBE

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**
**(Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)**

A M Jones

# R H A G L E N

1 **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd.

2 **ETHOL IS GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

4 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 9 Ebrill, 2013.

5 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 3 - 4)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

" O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynglwm."

6 **ADOLYGIAD PENAETHIAID GWASANAETH - YSTYRIAETHAU STRWYTHUR** (Tudalennau 5 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.
(ADRODDIAD HWYR YNGHLWM)

# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Bryan Owen (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Thomas H Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Keith Evans, Mrs Fflur Hughes, Vaughan Hughes, Eric Jones, Raymond Jones, G O Parry MBE a Ieuan Williams (dim yn bresennol ar gyfer y penderfyniad) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Y Cynghorydd W.J. Chorlton – Aelod Portffolio |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim i'w datgan.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2013 fel rhai cywir.

**YN CODI**

**Eitem 2 y Cofnodion – Penodi Staff (Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau)**

Gofynnwyd i'r Dirprwy Brif Weithredwr adrodd yn ôl i Aelodau'r Pwyllgor hwn (yn hytrach nag i'r aelod unigol dan sylw) ar yr amserlen a roddwyd yn ei lle i fonitro ymrwymiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i wella ei sgiliau Iaith Gymraeg ynghyd â'r aelod o staff yn yr Awdurdod a fyddai'n gyfrifol am y swyddogaeth fonitro hon.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ym Mharagraff 12 y Ddeddf hon ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 YSTYRIAETHAU STRWYTHUR PENAETHIAID GWASANAETH**

Cyflwynwyd – Adroddiad diwygiedig gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn dilyn sylwadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn ar 19 Mawrth 2013. Yn ogystal, rhoddwyd ar y bwrdd yn y cyfarfod newidiadau pellach i Baragraffau 7.5 a 9 yr adroddiad ac i'r argymhellion a awgrymwyd.

Roedd un o'r Aelodau yn dymuno cofnodi ei phryderon nad oedd y papurau a gyflwynwyd i'r cyfarfod heddiw ar gael yn ddwyieithog.

Mynegodd rhai o'r Aelodau bryder ynghylch amseriad y cynnig ac y dylai'r mater hwn fod yn un i'r Cyngor newydd wneud penderfyniad yn ei gylch ar ôl Mai 2013. Mynegwyd pryder hefyd y byddai'r strwythur newydd arfaethedig yn dod i rym cyn cwblhau'r ymarfer Arfarnu Swyddi.

Roedd yr Aelodau'n teimlo y dylai unrhyw aelodau o staff oedd â phryderon ynglŷn â'r broses gael y cyfle i godi'r pryderon gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr.

Yn dilyn trafodaeth faith, **PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Penodiadau'n cefnogi'r adroddiad ac argymell i'r Pwyllgor Gwaith:-**

- **Y strwythur newydd a'r rhesymeg fel y nodir ym Mharagraff 7 y prif adroddiad a'r gostyngiad o ganlyniad yn nifer swyddi Penaethiaid Gwasanaeth o 16 i 10 (gan gynnwys y 2 Bennaeth Swyddogaeth);**

- **Y swyddogaeth newydd a ddisgwylir o'r Penaethiaid Gwasanaeth fel y caiff ei nodi ym Mharagraff 7.4 y prif adroddiad a fydd yn cael ei datblygu'n ddisgrifiad swydd llawn;**

- **Y broses weithredu fel y caiff ei nodi ym Mharagraff 8 y prif adroddiad;**

- **Dyddiad gweithredu o 1 Hydref ar gyfer y strwythur newydd mewn perthynas â Phenaethiaid Gwasanaeth ac awdurdodi trafodaethau gyda'r Undebau Llafur ac i fabwysiadu'r dyddiad hwn hefyd fel y dyddiad gweithredu ar gyfer Arfarnu Swyddi i ddibenion ôl-gyflog a diogelwch fel y nodir hynny ym Mharagraff 9 y prif adroddiad;**

- **Bod y TUA yn rhoi blaenoriaeth a momentwm i'r broses Arfarnu Swyddi er mwyn sicrhau fod y prosiect yn cael ei gwblhau ym mis Ebrill 2014 yn unol â'r Cynllun Prosiect cyfredol;**

- **Ar ôl enwi'r Panel Penodiadau newydd ar ôl yr etholiad, darparu hyfforddiant ar frys fel bod gan y Panel y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i weithredu'r strwythur y cytunwyd arno;**

- **Y dylid ymgynghori'n gyffredinol gyda staff a chydranddeiliaid yn syth ar ôl yr etholiad ym mis Mai mewn perthynas â'r newidiadau y cytunwyd arnynt o ganlyniad i'r papur hwn, gan adrodd yn ôl i'r Panel Penodiadau ar ganlyniad yr ymgynghori hwn a chyda Cynllun Gweithredu manwl fel y caiff hynny ei nodi ym Mharagraff 9 y prif adroddiad.**

*(Roedd y Cynghorydd Keith Evans yn dymuno cofnodi ei fod yn erbyn y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod heddiw).*

*(Roedd y Cynghorydd Eric Jones yn dymuno cofnodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio ar y mater).*

**Y CYNGHORYDD BRYAN OWEN**
**CADEIRYDD**

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(Teitl yr Adroddiad/Title of Report)***

**Adolygiad y Penaethiaid Gwasanaeth – Rhoi ystyried i'r Strwythur**
**Heads of Service Review – Structure Considerations**
**ADRODDIAD I'R PANEL APWYNTIADAU / REPORT TO APPOINTMENTS PANEL**
**01/07/13**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae budd i'r cyhoedd wybod am faterion sy'n ymwneud a gweithwyr y Cyngor gan eu bod yn weithwyr cyhoeddus. Mae diddordeb uniongyrchol i'r cyhoedd yng nghostau gwasanaethau ac arbedion effeithiolrwydd.<br><br>There is public interest in knowing of matters which relate to the Council's employees as they are public sector workers. The public have a direct interest in the cost of services and efficiency savings. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae yna ddisgwyliad rhesymol fod pob mater sy'n ymwneud a gweithiwr unigol y Cyngor yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae'r adroddiad hwn a goblygiadau cyflogaeth sy'n ymwneud a'r Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>There is a reasonable expectation that all matters relating to an individual employee of the Council are treated confidentially. This report has employment implications for Heads of Service. |
| Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank